

Y Gadair: Gorwelion.

Denwyd dau ar bymtheg o feirdd eleni i ymgiprys am y Gadair. Nifer dda. Anwastad oedd y safon, ond mae'n rhaid dweud fod yna rai pethau da wrth i ni ddod at y brig. Yn rhyfedd iawn y beirdd caeth a gafodd fwyaf o hwyl arni. Er, nid yw hynny'n rhyfedd chwaith, gan fod canu ar y mesurau rhydd yn llawer iawn anoddach nag y mae llawer yn ei ystyried. Mae gan y beirdd caeth lawer mwy o ganllawiau i gydio ynddyn nhw. Fy nghyngor i'r beirdd rhydd rhyd fyddai i chi fynd at i ddarllen ein beirdd gorau ni, a sylweddoli nad oes angen pentyru geiriau.

Gair byr am bob un, ond gan fanylu ychydig wrth ddod at y brig.

Madryn: Cafwyd awdl gan Madryn, ac mae'n eitha da. Ond, yn anffodus, mae hi'n llawer iawn rhy hir o ran gofynion y gystadleuaeth.

Mali: Y mae hon yn gerdd gan fardd cwbl ddidwyll sy'n ymwneud â ffydd a gwella. Ond nid oes lawer o raen arni fel cerdd.

Yr Asgellwr: Cerdd gwbl aneglur, yn anffodus, ac mae'r iaith a'r gystrawen yn gwbl chwithig. Mae'r cynnwys yn gwbl haniaethol hefyd, ac mae hynny yn rhywbeth i'w osgoi.

Cantores: Trasiedi Aberfan a pherfformio gwaith newydd Karl Jenkins, y Cantata er cof am y plant yw'r cefndir yma. Mae rhyw awgrym fod y bard wedi canu yn y côr yn y perfformiad cyntaf. Cerdd ddidwyll unwaith eto, a gwenir defnydd o fydr ac odl, ond mae'r cyfan yn rhy glogyrnaidd i mi.

Terfynell: Y mae gwahaniaeth rhwng athroniaeth a barddoniaeth. Y mae'n bosib gweld y naill yn y llall, ydi, ond nid ar draul y llall. Problem fawr athronyddu mewn rhyw ffordd arbennig o fewn cerddi yw fod y cyfan yn tueddu i fod yn haniaethol ac yn troi'n rhethreg.

ap Dafydd: Y mae hon yn gerdd ddigon glân, er nid yn berffaith, chwaith, ond rwy'n tueddu i deimlo fod yna ormod o athronyddu a chanu haniaethol yn perthyn i hon hefyd.

Hafan: Cerdd sy'n trafod hynt a helyn y ffoaduriaid a chyflwr truenus eu bywydau a'u sefyllfaoedd. Penillion ar fydr ac odl oedd y rhain hefyd, ac mae'n dda gweld defnydd o'r rheini. Y mae'r mynegiant a'r grefft yn ddigon glân ond digon cyffredin yw'r cynnwys y tro hwn, mae arna i ofn.

Siôn Cwilt: Mae yna addewid wirioneddol yn fan hyn. Cerdd sy'n sôn am fab yn gadael y nyth, ac yn dianc i ochr arall y byd. Ceir ymateb y fam a'r mab yn annibynnol ar ei gilydd. Y mae'r bardd yn deall hanfodion y canu rhydd, ac mae yna ddigon o awgrymusedd yma. Efallai, wir, y clywn ni ragor am Siôn Cwilt.

Hedd: Cerdd arall yn y wers rydd (gyda rhyw ychydig o sŵn y gynghaneedd yma ac acw), ac ar y cyfan mae'r bardd hwn hefyd yn deall hanfodion y grefft. Ond, mae lle i dynhau brawddegau o hyd – dylid cyfiawnhau pob un sill a phob un gair. Cofiwch fod barddoni yn grefft fel pob crefft arall, ac fel y saer mae'n rhaid i'r bardd fod yn llym iawn hefyd. Cerdd am Hedd Wyn sydd yma, a does dim sy'n newydd yn y cynnwys.

Lucy: Cywydd a gafwyd gan Lucy. Rhywun cymharol newydd i'r grefft o gynganeddu sydd yma o bosib, gan fod yma nifer fawr o gynganeddion traws fantach – lle cewch chi y llei posib o gyfateb cytseiniol. Bydd angen i bard fynd yn ôl at ambell i linell hefyd, fel 'Deli ym Mhicadili'. Cerdd am berson ifan yn croesi'r ffin wrth fynd i'r coleg sydd yma a'r teimladau cymysg sy'n codi o hynny.

Caer Dathyl: Dyma fardd digon talentog sy'n mynd â ni yn ôl ac ymlaen rhwng byd ein chwedlau, y Mabinogion a'r Trioedd ac at realiti rhywun sy'n colli ei gof. Wn i ddim a ydi'r gerdd yn gwbl lwyddiannus y tro hwn, ond dalier ati.

O'r Tywyllwch: Cerdd ddigon uchelgeisiol a llwyddiannus, ar y cyfan, sy'n sô am ddechrau amser ac am y'Doe a wnaeth ein DNA'. Mae yna nifer o bethau effeithiol yma, fel

Yn scriptorwm prysur
y genynnau,
mae copïo cywir,
a mynaich y moliciwlau
yn nadu eu plu.

Ond efallai fod yna ormod o ddelweddau yn ymgiprys cyma hefyd, a pheth cymysgu yn codi o hynny. Ond addawol iawn.

Down, bellach, at y goreuon.

Tim Peake: Awdl. Hanes Tim Peake y Prydeiniwr o ofodwr sydd yn gefndir i'r gerdd hon. Rwy'n teimlo efallai mai rhywun sy'n dal i ddysgu ymarfer ei grefft yw'r bardd hwn. Mae wedi cyrraedd safon eitha da, ond o ymarfer ymhellach gall gyrraedd safon uwch, rwy'n siwr. Ar hyn o bryd, 'dyw rhywun ddim yn

cael gwefr o'r cynganeddu, ond mae lle da i gredu fod hynny i ddod. Gocheler rhag rhoi ansoddair o flaen enw!

Meical: Cerdd yn y wers rydd gan hen law o fardd sy'n sôn am yr helyntion a barodd i'r Cymry adael am y Wladfa ym Mhatagonia yn ogystal â'r helyntion a gafwyd wedi glanio. Y Meical yn y ffug-enw, wrth gwrs, yw Michael D. Jones, ac yntau yw'r 'arloeswr mawr' yn y gerdd. Mae'n anodd canu'n newydd ac yn wreiddiol ar bwnc sydd wedi'i drafod mor aml yn ein llenyddiaeth, a dyna'r rheswm pennaf mae'n siwr gen i pam nad yw Meical hyd yn oed yn uwch yn y gystadfleuaeth hon heno.

Efailwen: Awdl arall. Mae'n dweud mewn hir a thoddaid, 'O'r môr ein gorwel oedd bro'r Preselau', a dyna fyd y gerdd hon. Y mae hi'n deyrnged i raddau helaeth iawn i Waldo ac mae ei bresenoldeb yntau drwy'r awdl. Y mae Efailwen y grefftwr da, ond fod ambell i linell wan neu glogyrnaidd hwnt ac yma. Mae'r llinell olaf un yn gloff i 'nghlust i. 'Hwn yw'n gweddi, eco'r unigeddau', sydd braidd yn anffodus. Ond bardd da ydi Efailwen.

Gwenynen Gwen (sic): O bosib, hon yw fy hoff gerdd yn y gystadleuaeth oherwydd ei hasbri, ac am fod y cywydd yn canu. Cerdd sy'n trafod tranc y Gymraeg ym Mynwy yw hi. Ond' wrth gwrs, nid yw'r Gymraeg wedi marw yno. Mae hi'n glywadwy yn y sir, ond mae hi hefyd yn weladwy yn enwau'r lleordd ar fap ac arwyddion ffyrdd.

Ei seiniau yng Ngorsenon
Yn ddi-os yn Llyfos llon.
Yn Ystern Llewern a'r Llyn,
A'i ôl yng Nghraig Llewelyn.
Yn Llanelan mae'n canu
A seinio'n dôn yn Llwyn Du.
Ei halaw wâr yn Argoed
A ias cainc ym Mhlas y Coed,
Pery'i hynt yng Nghastell Prin
A hwyliog yn Llan-meli,

Mae ambell i fefl yma, ond byddwn wedi bod wrth fy modd yn rhoi'r Gadair i Wenynen Gwen.

Ond mae un ar ôl.

Agoriad: Cywydd dirdynol sydd yma, ac mae'n cyfeirio at drasiedi'r ffoaduriaid. Y croesi tir a môr peryglus a'r diffyg croeso.

yn araf â'r pererin
o ffens i ffens, croesi ffin...

Y mae ôl straen ar rai llinellau, yn bennaf o ran mynegiant a chystrawen, ond mae bard yma sy'n gwybob yn iawn be di be, ac mae'n cynnal y safon yn gampus drwy'r cywydd hir hwn. Mae o hefyd yn goferu llinellau yn gyson drwy'r cywydd. Golyga hyn fod y stori'n llifo'n ddi-ymdrech drwyr cyfan. Er, mae'n rhaid i mi gyfaddef i mi ddeisyfu ambell waith am lai o hynny er mwyn gallu sefyll am ennyd i allu sefyll yn ôl ac edrych ar y sefyllfa. Byddai rhagor o gwpledi fel y cwpled clo wedi ei godi i dir uwch eto

Hen yw hadau mewnfudiad;
ail-law yw ach unrhyw wlad.

Cwyn fach iawn ydi honno felly, ac mae'n bleser cyhoeddi mai Agoriad sydd orau yn y gystadleuaeth a'i fod yn llwyr haeddiannol o'r Gadair.

Dafydd John Pritchard